**1 PHG Penny – Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Hoffwn wrthwynebu'r cynnydd arfaethedig i gydnabyddiaeth ariannol holl gynghorwyr a swyddogion etholedig y cyngor. Er efallai bod y cynnig arfaethedig o +6.2% yn gyfartaledd o godiadau cyflog ledled Cymru, mae'n llawer uwch na'r hyn a ddyfarnwyd i'r rhan fwyaf o gyflogeion y sector cyhoeddus ledled gwledydd y Deyrnas Unedig.

Mae proffesiynau sydd eisoes yn brin o staff yng Nghymru, ac y ceir trafferth recriwtio iddynt, fel athrawon mathemateg a phynciau gwyddoniaeth, staff prifysgol o ansawdd uchel, a meddygon a llawfeddygon, wedi cael eu dal rhwng +4.0% (yn Lloegr) a +3.2% (staff llywodraeth leol). Er bod rhaid i unrhyw sefydliad cyflogi dalu'r gyfradd gyfredol ar gyfer staff, mae'n ymddangos yn amhriodol iawn i swyddogion etholedig gael codiad cyflog uwch o lawer na hwnnw a roddir i grwpiau eraill y sector cyhoeddus.

**2 Ar ran awdurdod lleol**

Mae Cyngor Tref Llangollen yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol Blynyddol Drafft 2026-27. Ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad, nid oes gan y Cyngor sylwadau penodol i'w gwneud ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, hoffai'r Cyngor gael cadarnhad gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ynglŷn â ph'un a fydd y Cyngor Tref yn symud o Grŵp 4 i Grŵp 3, o ystyried bod ei incwm neu wariant blynyddol yn fwy na £200,000 bellach.

**3 Aelod o'r cyhoedd**

Er mwyn ymgynghori, byddai angen i mi wybod :-
Pwy neu beth ydych chi'n annibynnol arno?
Pwy sy'n penodi'r bwrdd?
A oes unrhyw fesur effeithlonrwydd?

**4 Ar ran awdurdod lleol**

Ysgrifennaf ar ran Cyngor Cymuned Porthsgiwed ynglŷn â'r uchod.

Mae'r aelodau wedi ystyried yr adroddiad ac yn cytuno bod y cynigion yn rhesymol a bod y lwfansau'n ddigonol i fodloni anghenion cynghorwyr.

**5 Ar ran awdurdod lleol**

Diolch am y cyfle i ymateb i'r adroddiad blynyddol drafft ar gydnabyddiaeth ariannol.

Bu i Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor nodi cynigion y Comisiwn ar gyfer 2026-27 yn ei gyfarfod ar 4 Tachwedd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn edrych ymlaen at dderbyn rhagor o wybodaeth am flaenoriaethau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn nesaf ac yn awyddus i gael gwybod mewn da bryd am unrhyw fwriad i wneud newidiadau strwythurol sylweddol ar gyfer

2027-28. Roedd diddordeb penodol i ddeall mwy am y cynnig i ymgynghori ar gydnabyddiaeth ariannol i aelodau cyd-bwyllgorau corfforedig.

**6 Y Cynghorydd Robert Wood – Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

O'm harsylwadau a'm safbwynt fy hun, credaf fod taliadau ymaddasu'n syniad gwych.

Credaf y byddant yn denu cynghorwyr iau i'r broses ddemocrataidd, sy'n rhywbeth y mae mawr angen amdano o ystyried sgiliau unigryw llawer o gynghorwyr iau. Byddent hefyd yn annog y rhai hynny y mae'n bosibl eu bod eisoes yn meddu ar sgiliau a fyddai'n fuddiol i gynghorau i geisio cael eu hailethol, yn hytrach na derbyn cyflogaeth fwy sicr efallai, gan wybod os na chânt eu hailethol, o leiaf y bydd ganddynt beth amser i chwilio am gyflogaeth newydd neu hyfforddi ar gyfer gyrfa arall.

**7 Ar ran awdurdod lleol**

Yn ei gyfarfod ar 3 Tachwedd 2025, ystyriodd Cyngor Cymuned Llanllawddog Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol Drafft y Comisiwn ac mae'n cefnogi'r penderfyniadau ynddo.

**8 Gareth Jones – Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Anfonaf y neges e-bost hon atoch fel aelod o Gyngor Sir Powys a hefyd aelod o Gyngor Cymuned Aberedw, ynglŷn â'r adroddiad cydnabyddiaeth ariannol drafft. Hoffwn wneud y sylwadau canlynol.

Cynigion ar gyfer Prif Gynghorau – Nodaf fod y gydnabyddiaeth ariannol arfaethedig wedi'i seilio ar 3 diwrnod o gyflogaeth a delir ar gyfradd y cyflog cymedrig cyfartalog yng Nghymru, sy'n gyfwerth ag ychydig dros £18 yr awr os bydd aelod yn ymgymryd â'r hyn sy'n cyfateb i 3 diwrnod o waith yr wythnos i gyflawni ei ddyletswyddau. Gan fod canran sylweddol o boblogaeth weithio Cymru, yn gyflogedig ac yn hunangyflogedig, yn ennill dipyn llai na'r gyfradd hon fesul awr, credaf y dylai'r sail i'r cyfrifiad cyfartalog gael ei newid o'r "cymedr" i'r "canolrif", neu y dylid o leiaf ystyried hynny ar gyfer newidiadau 27-28.

Credaf hefyd y dylai eich adroddiad esbonio'r rhesymau dros y taliadau arfaethedig o ran uwch aelodau a'r rhai hynny sy'n dal swyddi dinesig taledig, gan nad wyf yn credu ei fod yn gwneud hynny ar hyn o bryd.

Cynghorau Tref a Chymuned – Er bod eich cynigion ar gyfer y taliad gorfodol i Gynghorwyr Tref a Chymuned yn fach ac yn gyfwerth â £2.50 yr wythnos yn unig ar ôl treth, hoffwn i'r gair "Gorfodol" gael ei ddisodli â'r geiriau "Taliadau argymelledig".

**9 Ar ran awdurdod lleol**

Anfonaf y neges e-bost hon atoch i roi gwybod i chi nad oes gan y Cyngor sylwadau i'w gwneud ar yr adroddiad drafft.

**10 Ar ran awdurdod lleol**

**Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru – Adroddiad blynyddol drafft ar gydnabyddiaeth ariannol 2026-2027**

Cyfeiriaf at Adroddiad Blynyddol drafft 2026/27 a dderbyniwyd oddi wrth Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (DBCC), ac rydym yn ddiolchgar bod y Cyngor wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar ei gynnwys.

Mae'r adroddiad drafft wedi'i ystyried gan banel o Aelodau ac mae sylwadau'r Cyngor fel a ganlyn:

**1. Cyflogau Sylfaenol**

Nodir mai'r cynnig yw cynyddu cyflogau sylfaenol gan 6.4%, gan ddod â'r cyflog sylfaenol i £21,044.

Mae'r Cyngor yn deall yr angen am gydbwysedd wrth ystyried cyflogau cynghorwyr.

Ar un llaw, gallem ddweud nad yw'r cyfwerth â 3 diwrnod a ddefnyddir gan y DBCC yn adlewyrchu rôl Cynghorydd yn ddigonol h.y. sicrhau bod yr holl hyfforddiant wedi'i gwblhau, eu rôl gymunedol, fel Llywodraethwyr ac ati. Gellid dadlau bod rôl Cynghorydd o leiaf yn cyfateb i 5 diwrnod yr wythnos.

Fodd bynnag, ar y llaw arall, ar adeg o bwysau cyllidebol cynyddol a heriau ar gyllid cyhoeddus, mae'r Cyngor yn credu y dylai'r cynnydd fod yn hafal i gyfradd chwyddiant. Dylai fod ar yr un lefel â'r cynnydd ar gyfer gweithwyr Llywodraeth Leol. Dyma'r ail flwyddyn o gynnydd sylweddol i Aelodau, yn uwch o dipyn na'r codiad cyflog a dderbyniodd gweithwyr y Cyngor sef 3.2% yn 2025/26.

Fe wnaethom godi'r mater hwn y llynedd, ond hefyd efallai y byddai'r DBCC yn dymuno ystyried cynnydd ar ffurf swm penodol (yn hytrach na chanran) er mwyn lleihau'r gwahaniaeth rhwng y gwahanol rolau, ond i gadw'r cynnydd cyffredinol yr un fath ac ar yr un pryd ystyried y pwysau ariannol parhaus ar gyllidebau'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd unrhyw gynnydd yn cael ei feirniadu gan drethdalwyr a bydd angen cyfathrebu clir gan y DBCC i esbonio hyn gan mai'r Cyngor yn aml sy'n cael ei feirniadu am gynyddu cyflogau ar adeg pan mae llawer yn y gymdeithas yn cael trafferth gyda chostau byw.

**2. Cyflogau i Aelodau Uwch**

Mae'r Cyngor yn gofyn a yw'r 'Grwpiau Cyngor' sydd ar sail poblogaeth yn dal i fod yn berthnasol i rolau Arweinydd, Dirprwy Arweinydd ac Aelodau Gweithredol? Bydd gan bob Aelod o Fandiau 1 a 2 yr un cyfrifoldebau a'r un heriau a gellid dadlau bod y rhai mewn awdurdodau llai yn cael eu tynnu i bob cyfeiriad –gorfod mynychu mwy o gyfarfodydd a gwaith rhanbarthol e.e. Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r Fargen Dwf.

A yw poblogaeth yn fesur cywir ar gyfer faint y caiff Aelodau Band 1 a 2 eu talu gan fod yr un cyfrifoldebau ganddynt? A yw'n bryd felly i bob Aelod Band 1 a 2 gael yr un tâl?

**3. Cynigion eraill**

Mae'r Cyngor wedi nodi, ac yn derbyn, y penderfyniadau arfaethedig eraill a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol drafft.

**4. Sylwadau eraill**

a. Fel gydag unrhyw rôl, nid yw pob Cynghorydd yn rhoi'r un ymroddiad i'r rôl ag eraill. A yw'n bryd ystyried a oes angen diweddaru Adran 85(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac adolygu'r gofyniad i fynychu o leiaf un cyfarfod o'r Awdurdod hwnnw o fewn cyfnod o chwe mis yn olynol oni bai bod caniatâd ar gyfer yr absenoldeb yn cael ei roi gan yr Awdurdod ymlaen llaw. Fel Cyngor credwn y dylai'r cyfnod hwn fod yn llai na chwe mis.

b. Hefyd hoffai'r Cyngor dynnu sylw at y newidiadau i Gynghorau Tref a Chymuned yn 2027 ac effaith bosibl hyn ar lwyth gwaith Cynghorwyr Sir a hefyd gallu Cynghorau Tref a Chymuned i gymryd gwasanaethau.

c. Mae'r Cyngor yn croesawu cyfeiriad at daliadau ailsefydlu ac yn edrych ymlaen at glywed mwy yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

**11 Ar ran awdurdod lleol**

Diolch am y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y comisiwn) ar gydnabyddiaeth ariannol i Gynghorwyr ar gyfer 2026/27. Amgaeaf yr ymateb ar gyfer Cyngor Gwynedd.

· Croesewir bwriad y Comisiwn i fod yn adolygu'n llawn gan gyflwyno newidiadau sylweddol I'r fframwaith taliadau unwaith bob cylch etholiadau, gan ganolbwyntio ar uwchraddio blynyddol yn unig yn y blynyddoedd eraill. Byddwn yn falch o dderbyn gwybodaeth mor fuan â phosib ar gyfer 2027/28 (fel ei bod yn wybyddus mor fuan â phosib ar gyfer y rhai sy'n ystyried sefyll yn etholiad Mai 2027)

· Rydym yn croesawu fod y Comisiwn yn ystyried cyllidebau awdurdodau lleol wrth ystyried y cynnydd blynyddol i daliadau i Gynghorwyr. Eleni, mae'r cynnydd i gyflogau aelodau yn 6.4%, o gymharu â 3.2% a dderbyniodd staff llywodraeth leol yn 2025/26. Croesewir fod y Comisiwn yn bwriadu edrych yn benodol ar y berthynas rhwng cyflogau Cynghorwyr a'r ASHE Cymru yn ystod y flwyddyn i ddod, ac argymhellir y dylid ystyried y cynnydd blynyddol yng nghyd-destun y cynnydd cyfatebol i staff awdurdod lleol.

· Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, nid oes manylion yn yr adroddiad yn nodi y bydd pob Aelod yn derbyn y gydnabyddiaeth yn awtomatig, na manylion ynghylch adegau pan na fydd aelod unigol yn dymuno derbyn y swm (neu gyfran ohono), a'r trefniadau sydd i fod mewn lle i hynny ddigwydd. Gofynnir am gadarnhad o'r sefyllfa yn yr adroddiad terfynol.

· Nid oes manylion ynghylch a yw rôl y Pennaeth Dinesig a'r Dirprwy Bennaeth Dinesig (os y'i telir), wedi eu cynnwys o fewn y terfyn neu beidio. (Roedd yn glir yn y gorffennol nad oedd o fewn y terfyn). Gofynnir am gadarnhad o'r sefyllfa am yr uwch gyflogau i'r Pennaeth Dinesig a'r Dirprwy Bennaeth Dinesig fel rhan o'r adroddiad terfynol.

· Rydym yn falch fod y Comisiwn o'r farn fod angen annog taliadau i aelodau Cynghorau Tref a Chymuned ac yn argymell i'r Comisiwn fod yn gwneud hynny dros y blynyddoedd i ddod.

· Nid oes newid i'r cyfraddau a argymhellir ar gyfer Aelodau cyfetholedig ac Aelodau lleyg ar gyfer 2026/27. Noder nad yw'r cyfraddau ar gyfer Aelodau cyfetholedig ac Aelodau lleyg wedi codi ers rhai blynyddoedd bellach. Fodd bynnag, mae pwyslais penodol ar 'swyddog priodol' o

fewn yr awdurdod i bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i raglennu ar gyfer diwrnod llawn neu hanner diwrnod, ac i benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod neu ddefnyddio cyfradd fesul awr lle mae'n synhwyrol cyfuno nifer o gyfarfodydd. O ystyried fod y gyfradd fesul awr wedi ei chyflwyno yn wreiddiol er mwyn adlewyrchu'r ffordd newydd o weithio (e.e. Cyfarfodydd briffio am dri chwarter awr), argymhellir fod y Comisiwn yn pwysleisio'r angen i ddefnyddio'r gyfradd fesul awr, yn hytrach na'r gwaith ychwanegol i swyddogion i adnabod hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn – mae'n dangos fod Cynghorau sir yn ddarbodus yn ariannol ac yn talu'n deg am y gwaith sy'n cael ei gyflawni.
· Rydym yn falch fod y Comisiwn eisoes wedi adnabod fod taliadau ar gyfer Aelodau cyfetholedig ac Aelodau lleyg yn bwnc penodol i gael sylw yn ystod 2026/27. Rydym yn pwysleisio'r angen i'r pwnc yma gael ystyriaeth deg gan ei bod yn anodd denu Aelodau lleyg i gyflawni gwaith hynod bwysig, ac felly fod yn rhaid i'r gydnabyddiaeth ariannol i'r Aelodau hyn hefyd gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn yr un modd â'r gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau Etholedig.
· Croesewir y gwaith ar gyfer 2026/27 fel sydd wedi ei nodi ym mhennod 1, gyda'r sylwadau isod
o Taliadau ailsefydlu – nid oedd unrhyw sylwadau pellach
o Cydnabyddiaeth i rolau uwch mewn prif gynghorau a chyd-bwyllgorau corfforedig – argymhellir yn gryf fod y gwaith yma'n cael ei wneud yn ystod 2026/27 er mwyn cydnabod y gwaith ychwanegol sydd wedi disgyn yn bennaf ar ysgwyddau aelodau Cabinet yn sgil gofynion newydd y cydbwyllgorau corfforedig.  Mae lle hefyd i adolygu rhai o'r uwch-gyflogau eraill, gan ystyried gwir ofyn y rolau o gymharu a'r gydnabyddiaeth a roddir ee ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau.
o Y mesur i benderfynu ar uwchraddio lefelau cydnabyddiaeth ariannol – gweler y sylwadau uchod, yn arbennig ar gyfer eu cadw'n gyfredol gyda chynnydd cyflogau i staff.
o Taliadau i aelodau cyfetholedig ac aelodau lleyg – gweler uchod y sylwadau sy'n annog y gwaith yma, yr angen i hyrwyddo'r talu fesul awr a'r cynnydd blynyddol i raddfeydd talu i aelodau lleyg am eu gwaith.

**12 Ar ran awdurdod lleol**

Diolch am eich neges e-bost ddiweddar ynglŷn â'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol Blynyddol Drafft; hoffwn wneud y sylwadau canlynol:

1. Nodaf mai'r cynnydd a roddir i bob band yw 6.4%; sut gellir cyfiawnhau hyn pan fo'r CPI yn 3.8% (ffigurau mis Medi 2025), pan fo'r CPIH yn 4.1%, a phan fo'r RPI yn 4.5%; mae buddion, gan gynnwys pensiynau'r wladwriaeth, yn cael eu cynyddu 4.8%, sef y twf mewn enillion cyfartalog yn unol â ffigurau mis Medi

2. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gymryd drosodd y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y cynnydd mewn cyflogau Clercod Cynghorau Cymuned, sef 3.2% o fis Ebrill 2025 (wedi'i ôl-ddyddio); Clercod Cynghorau Cymuned yw asgwrn cefn Cynghorau Cymuned, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud oriau lawer o waith ychwanegol yn ddi-dâl gan eu bod yn gweithio i'w Cymuned, felly mae cynnydd o 3.2% yn hytrach na 6.4% yn ymddangos yn annheg; nid yw'n syndod bod swyddi gwag Clerc Cyngor Cymuned yn cael eu hysbysebu'n rheolaidd.

**13 Ar ran awdurdod lleol**

Pnawn da - diolch am gysylltu - does dim sylwadau gan y Cyngor Tref ar yr adroddiad drafft blynyddol.

**14 Ar ran awdurdod lleol**

Ysgrifennaf ar ran Cyngor Cymuned Bangor Is-coed ynglŷn â'r taliadau gorfodol i aelodau ar gyfer cynghorau cymuned a thref.

Ein **praesept presennol yw £25,821**. Gyda **10 cynghorydd**, amcangyfrifwn y byddai'r elfennau gorfodol yn costio **£2,080 y flwyddyn** (10 × £208), ynghyd â **chronfa mân dreuliau** ar gyfer hawliadau cymwys (e.e., costau gofal). Mae hynny'n gyfystyr ag **ychydig dros 8% o'n praesept** ar adeg pan fo cyllidebau eisoes yn dynn iawn ar gyfer y gwasanaethau craidd a'r grantiau bach a ddarparwn yn lleol.

Mae ein cynghorwyr wedi dweud yn gyson **nad ydynt eisiau derbyn y taliadau hyn**. Byddai eu gorfodi'n golygu y byddai'n rhaid i ni ddargyfeirio arian i ffwrdd oddi wrth flaenoriaethau lleol a byddai'n **cael effaith sylweddol ar y gwasanaethau** y gallwn eu darparu i gymuned fach, glòs.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ystyried:

- Caniatáu opsiwn **optio allan lleol** (yn unigol neu ar draws y cyngor) sy'n galluogi aelodau i wrthod y taliad; neu
- Ddarparu **hyblygrwydd/esemptiad** ar gyfer cynghorau bach o dan braesept diffiniedig neu drothwy etholwyr; neu
- Alluogi **cyfradd raddol neu gyfradd lai** ar gyfer cynghorau llai i gyfyngu ar yr effaith ar wasanaethau.

Rydym yn awyddus i barhau i gydymffurfio'n llwyr ar yr un pryd â diogelu gwasanaethau cymunedol hanfodol. Felly, byddem yn falch o weld opsiynau ymarferol yn cael eu cynnwys yn y polisi sy'n cydbwyso egwyddorion cydnabyddiaeth ariannol â gwirioneddau ariannol praeseptau bach iawn.

**15 Ar ran awdurdod lleol**

Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi ystyried y cynigion a amlinellir yn eich Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2026-27 ac yn dymuno cyflwyno'r cynrychiolaethau canlynol:

1. Cynnydd Arfaethedig i Gyflogau Sylfaenol

Er ein bod yn cydnabod sail resymegol y Comisiwn dros gyfateb cydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr i enillion cyfartalog, mae gan y Pwyllgor bryderon mawr ynglŷn â'r cynnydd arfaethedig o 6.4% ar gyfer 2026–27.

- Ystyrir bod y cynnydd hwn yn annerbyniol yn yr hinsawdd economaidd bresennol, yn enwedig o'i gymharu â setliadau cyflog ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus.

- Argymhellwn y dylai unrhyw ychwanegiad gael ei gysylltu â chwyddiant neu gyd-fynd â dyfarniadau cyflog cyfartalog y sector cyhoeddus, er mwyn sicrhau tegwch a ffydd y cyhoedd.
- Credwn y dylai cynnydd mawr gael ei gyflwyno y flwyddyn nesaf pan fyddwch yn ystyried y fframwaith yn ei gyfanrwydd yn barod ar gyfer etholiad 2027.

2. Taliadau Aelodau Cyfetholedig

Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw taliadau ar gyfer aelodau cyfetholedig wedi newid ers 2022. Credwn fod angen adolygu hyn i adlewyrchu eu cyfraniad a'u cyfrifoldebau. Gofynnwn i'r Comisiwn ystyried addasiad priodol mewn penderfyniadau yn y dyfodol.

3. Recriwtio ac Amrywiaeth

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cydnabyddiaeth ariannol deg i ddenu ystod amrywiol o ymgeiswyr, gan gynnwys unigolion iau a'r rhai hynny nad oes ganddynt ffrydiau incwm eraill. Fodd bynnag, credwn y dylid cydbwyso'r amcan hwn â fforddiadwyedd a chanfyddiad cyhoeddus. Cefnogwn adolygiad cynhwysfawr o'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol cyn etholiadau lleol 2027, fel y nodir yn eich adroddiad.

4. Amseru Newidiadau Mawr

Mae'r Pwyllgor yn cytuno y dylid cyflwyno newidiadau o sylwedd i'r fframwaith y flwyddyn nesaf er mwyn rhoi eglurder i ddarpar ymgeiswyr cyn etholiadau 2027.

I grynhoi, nid yw'r Pwyllgor yn cefnogi'r cynnydd 6.4% arfaethedig ar gyfer 2026-27 ac mae'n annog y Comisiwn i fabwysiadu dull mwy cymedrol sy'n gysylltiedig â chwyddiant. Gofynnwn hefyd am adolygiad o daliadau aelodau cyfetholedig a chroesawn ymgysylltiad pellach ynglŷn â'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol ehangach.

Diolch am ystyried ein safbwyntiau. Mae croeso i chi gysylltu â ni os bydd arnoch angen eglurhad pellach.

**16 Ar ran awdurdod lleol**

Cafodd adroddiad blynyddol drafft y Comisiwn ei adrodd i Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'i drafod ddoe.

Gwnaed y sylwadau canlynol gan ein Cynghorwyr a oedd yn bresennol:

1. Mae'r argraff a'r amseru yn ofnadwy, a holodd cynghorydd beth oedd y cyfiawnhad i'r cynnydd.
2. Roedd cynghorydd arall o'r farn bod y cynnydd yn codi cywilydd ac yn gwneud iddo deimlo'n annifyr.
3. Roedd un cynghorydd o'r farn y byddai'n beth da iddynt gael mwy o fewnbwn ac ymgysylltiad o flaen llaw ynglŷn â chynnydd arfaethedig.
4. Crybwyllodd un cynghorydd fod y mater hwn yn ddadleuol a cheisiodd eglurhad bod y corff sy'n gwneud y penderfyniad yn gorff annibynnol – cadarnhawyd hyn yn yr adroddiad i'r pwyllgor.

5. Roedd un cynghorydd yn ymwybodol bod angen i gydnabyddiaeth ariannol fod yn gytbwys er mwyn annog a galluogi'r genhedlaeth iau i ystyried dod yn gynghorydd sir.
6. Gofynnodd cynghorwyr a ellid anfon yr adroddiad blynyddol drafft atynt ar ôl iddo gael ei gyhoeddi. Byddwn yn ymdrin â hyn yn fewnol, ac o ran y mater hwnnw, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ychwanegu fy nghydweithwyr, [WEDI'I GUDDIO] at restr derbynyddion Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, [WEDI'I GUDDIO]. Rwyf yn anfon copi o'r neges e-bost hon at [WEDI'I GUDDIO].

**17 Ar ran awdurdod lleol**

Trafodwyd y mater uchod yng nghyfarfod misol y Cyngor. Penderfynwyd nad oedd sylwadau i'w gwneud.

**18 Ar ran awdurdod lleol**

Gair ar ran Cyngor Cymuned Llanengan i ddweud y penderfynwyd nad oedd gan yr Aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r argymhellion er mai gwrthod y taliadau a wnânt hwy.

**19 Ar ran awdurdod lleol**

Diolch yn fawr am y cyfle i wneud sylwadau ar yr adroddiad drafft hwn. Nid oes gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro unrhyw sylwadau i'w gwneud.

**20 Ar ran awdurdod lleol**

Fe drafodwyd yr ymgynghoriad yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r Cyngor a phenderfynwyd nad oedd sylwadau.

**21 Ar ran awdurdod lleol**

Ystyriwyd **Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol Blynyddol Drafft 2026-2027** gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 29 Medi 2025. Rhannwyd yr Adroddiad Drafft gyda holl Aelodau Etholedig, Annibynnol a Chyfetholedig Cyngor Caerdydd, a dywedwyd wrthynt y gallent ymateb i'r ymgynghoriad yn unigol, fel grŵp gwleidyddol neu gyfrannu at ymateb a oedd yn cael ei lunio gan y Pwyllgor.

Ni roddodd y Pwyllgor adborth penodol ar yr adroddiad drafft, ond roedd yn awyddus i weld sut byddai amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol yn cael eu datblygu. Gallai'r amcanion a oedd yn cynnwys y posibilrwydd o daliadau ymaddasu, ailystyried cydnabyddiaeth ariannol rolau uwch a'r cysylltiadau presennol â'r Arolwg Blynyddol o Enillion Fesul Awr gyflwyno nifer o heriau, nid yn unig o ran ariannu a rheoli'r cynigion hyn gan Awdurdodau Lleol, ond i'r gymuned aelodau ehangach.

Petai ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal ynglŷn â'r amcanion hyn, rwy'n siŵr y byddai gan Gyngor Caerdydd ddiddordeb mewn cymryd rhan.

**22 Ar ran awdurdod lleol**

**Darn o Benderfyniadau Adroddiad Blynyddol Drafft 2025-2026 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a sylwadau Bro Morgannwg**

**Sylwer:** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi amlinelliad yn unig o ffigurau cyflog Cynghorau Grŵp B, y mae'r Cyngor yn perthyn iddynt.

| **Penderfyniad 1** | Mae'r cyflog sylfaenol ar gyfer Aelodau Etholedig Prif Gynghorau wedi'i osod ar £21,044. |
|---|---|
| **Sylwadau** | Bydd y cyflog sylfaenol yn cyd-fynd â thair rhan o bump o Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) Cymru Gyfan 2022, sef y ffigur diweddaraf a oedd ar gael ar yr adeg llunio. Mae hyn yn unol â nodau datganedig Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC). Mae'r Awdurdod o'r farn y dylai taliadau gael eu rhewi ac aros yn unol â 2024/25. |

| **Penderfyniad 2** | Cyflog arweinydd y cyngor Grŵp B fydd £71,025. Penderfynwyd ar yr holl daliadau eraill gan gyfeirio at hyn. |
|---|---|
| **Sylwadau** | Bydd y terfyn ar nifer y cyflogau uwch sy'n daladwy (y cap) yn parhau. Mae Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) Cymru Gyfan 2022 yn berthnasol i Fand 1 (Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor) a Band 2 (Aelodau Gweithredol), Band 3 (Cadeiryddion Pwyllgorau), Band 4 (Arweinydd y Grŵp Gwrthblaid Mwyaf), Band 5 (Arweinydd Grwpiau Gwleidyddol Eraill), sy'n golygu y bydd cyflogau'n cael eu rhewi a bydd y cynnydd sylfaenol i gyflogau'n berthnasol.<br><br>Mae'r Awdurdod o'r farn y dylai taliadau gael eu rhewi ac aros yn unol â 2024/25.<br>Byddai Penderfyniad 2 CDFfC yn cael yr effaith ganlynol: |

| **Cyflogau Uwch (yn cynnwys Cyflog Sylfaenol) – Cynghorau Grŵp B** | **2025/26** | **2026/27 Arfaethedig** |
|---|---|---|
| **Band 1** | | |
| Arweinydd | £66,727 | £71,025 |
| Dirprwy Arweinydd | £46,709 | £49,717 |

| | | |
|---|---|---|
| **Band 2**<br><br>Aelodau Gweithredol | £40,036 | £42,615 |
| **Band 3**<br><br>Cadeiryddion Pwyllgorau (os ydynt yn cael cydnabyddiaeth ariannol) a'r Pennaeth Dinesig | £29,657 | £31,567 |
| **Band 4**<br><br>Arweinydd y Grŵp Gwrthblaid Mwyaf | £29,657 | £31,567 |
| **Band 5**<br><br>Arweinydd Grwpiau Gwleidyddol Eraill a'r Dirprwy Bennaeth Dinesig | £23,726 | £25,253 |

| **Penderfyniad 3** | **Lefel cyflog Cadeirydd ac Is-gadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu** |
|---|---|
| **Sylwadau** | Y symiau arfaethedig yw £10,522 a £5,261, yn ôl eu trefn.<br><br>Mae'r Awdurdod o'r farn y dylai taliadau gael eu rhewi ac aros yn unol â 2024/25. |

| **Penderfyniad 4** | **Taliadau i Awdurdodau Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub** |
|---|---|
| **Sylwadau** | Nid yw'r Awdurdod yn gwneud sylwadau ar y cynnydd oherwydd ei fod yn fater i'r awdurdodau hynny. |

| **Penderfyniad 5** | **Taliadau Aelodau Cyfetholedig**<br><br>Amlinellir y ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub ac aelodau lleyg Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn Nhabl 4. |
|---|---|
| **Sylwadau** | Nid yw'r Awdurdod yn gwneud sylwadau ar y cynnig. |

| **Penderfyniad 6** | **Taliadau i Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref**<br>Mae'r swm digolledu dewisol am golled ariannol ar gyfer aelodau Cynghorau Cymuned a Thref yn cynyddu i hyd at £67.45 am bob cyfnod nad yw'n fwy na 4 awr a hyd at £134.90 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond nad yw'n fwy na 24 awr. Mae'r holl daliadau eraill i aelodau Cynghorau Cymuned a Thref yr un fath â blynyddoedd blaenorol. |
|---|---|
| **Sylwadau** | Nid yw'r Awdurdod yn gwneud sylwadau ar y cynnig. |

Er nad yw'n gysylltiedig â'r penderfyniadau, nododd y Pwyllgor hefyd y cynigion yn ymwneud â thaliadau ymaddasu, a datganodd nad oedd yn cefnogi cyflwyno'r taliad hwn i Gynghorwyr.

**Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd, 2025.

[WEDI'I GUDDIO]

ADRODDIAD CYDNABYDDIAETH ARIANNOL BLYNYDDOL DRAFFT COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU (HDS)

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad a dywedodd y bydd yr Aelodau'n gyfarwydd ag ef oherwydd ei fod yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor bob blwyddyn, gan fanylu ar y taliadau arfaethedig ar gyfer Cynghorwyr yn y flwyddyn ariannol nesaf. Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai dyma'r adroddiad cyntaf ar gydnabyddiaeth ariannol, gan fod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru bellach yn ymgymryd â chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd awgrym y Comisiwn sy'n archwilio taliadau ymaddasu a dywedodd y bydd y Pwyllgor yn cael mwy o wybodaeth am y newid hwn wrth iddi ddod ar gael. Ychwanegodd y gallai Aelodau wneud cynrychiolaethau unigol, a bod Atodiad B yn cynrychioli safbwyntiau'r Cyngor ynglŷn â'r penderfyniadau arfaethedig. Roedd yr ymatebion wedi'u seilio ar flynyddoedd blaenorol, gyda phenderfyniadau 1 a 2 yn adleisio'r geiriad o flynyddoedd blaenorol, a phenderfyniadau 3 i 6 yn cynnig dim sylwadau gan eu bod yn feysydd nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol arnom fel Cyngor, gan nodi bod penderfyniad 5 ar gyfer rhewi cyflogau Aelodau Cyfetholedig gan fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal adolygiad systematig o daliadau cyfetholedig ar draws pob lefel Llywodraeth. Dywedodd, ar ôl i'r Pwyllgor gytuno ar ymateb i'r ymgynghoriad, y byddai ymateb ffurfiol yn cael ei rannu gyda Chomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ochr yn ochr â chofnodion y cyfarfod.

Ychwanegodd y Cynghorydd Dr I. J. Johnson fod y Pwyllgor yn parhau i ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) i lywio eu cyflogau sylfaenol arfaethedig ar gyfer Aelodau.

Dywedodd y Cynghorydd Mahoney ei fod wedi gwrthod codiadau cyflog ers sawl blwyddyn, bod y gydnabyddiaeth ariannol arfaethedig yn eithriadol o uchel, a bod angen lleddfu'r pwysau ar drethdalwyr yn yr amgylchedd economaidd presennol. Anogodd y cyhoedd i edrych ar y symiau a delir i Gynghorwyr a myfyriodd fod yr un Comisiwn yn bwriadu cynyddu nifer y Cynghorwyr o 54 i 59 yn yr Etholiad nesaf, a fyddai'n fwy costus i breswylwyr, yn ei farn ef. Ychwanegodd na fyddai'n derbyn y cynnydd ym mis Mai ac anogodd Aelodau eraill i ddilyn ei esiampl.

Eglurodd y Cynghorydd Dr I. J. Johnson fod hwn yn gyfle i ffurfio ymateb y Cyngor i'r cynigion, ac mai'r cynnydd arfaethedig i gyflogau oedd 6.4%, a fyddai'n golygu y byddai cyflog sylfaenol aelodau etholedig yn cynyddu i £21,044, ac y byddai'r cyflog sylfaenol ar gyfer y grwpiau gwrthblaid mwyaf a chadeiryddion pwyllgorau yn cynyddu i £31,567, a bod dadansoddiad llawn yn ôl pob swydd ar gael yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Carroll na allai gefnogi'r cynigion na'r ymatebion yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, gan nad oedd o'r farn eu bod yn addas, yn synhwyrol nac yn briodol. Cynigiodd fod y Pwyllgor yn argymell y dylai'r cyflogau Aelodau a amlinellir ym Mhenderfyniadau 1, 2 a 3 gael eu rhewi am y flwyddyn i ddod. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bruce.

Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod y Pwyllgor yn trafod yr un peth bob blwyddyn, bod argymhellion y Comisiwn wedi'u seilio ar wythnos waith tri diwrnod, a bod llawer o Gadeiryddion ac Uwch Aelodau yn gwneud mwy o oriau na hyn. Ychwanegodd er bod llawer dan bwysau'n ariannol, bod y cynigion wedi'u seilio ar dystiolaeth ac yn adlewyrchu natur ehangach cyflogau sy'n cynyddu. Dywedodd er bod llawer o Aelodau'r Cyngor yn ymwneud â gwaith Cynghorau Tref a Chymuned, nad yw llawer yn derbyn y lwfansau sydd ar gael.

Roedd y Cynghorydd Hanks o'r farn bod y cynnydd yn sylweddol ac y dylai'r Comisiwn gynyddu nifer yr etholwyr o fewn wardiau os yw'n cynyddu cyflogau i adlewyrchu'r llwyth gwaith ychwanegol, ac nid oedd o'r farn bod angen cynyddu nifer yr Aelodau etholedig.

Myfyriodd y Cynghorydd Bruce ar y ffaith bod y cyflog wedi'i seilio ar wythnos waith 20 awr, a chredai fod rhai Aelodau'n gwneud llawer mwy na hyn; dywedodd hefyd nad oes modd gwybod faint o oriau y mae Aelodau unigol yn eu gweithio gan nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi a'i chasglu.

Ymatebodd y Cynghorydd Dr I.J. Johnson drwy ddweud y byddai fframwaith i fonitro trefniadau gwaith Aelodau yn anodd ei weithredu a'i reoli, a phwysleisiodd fod y Cyngor yn derbyn argymhellion gan y Comisiwn, yn gyffredinol.

Yn dilyn cais gan Aelod am Bleidlais Gofnodedig, cynhaliwyd y bleidlais ynglŷn â'r diwygiad arfaethedig i'r ymateb ymgynghori fel a ganlyn:

| **Aelod** | **O blaid** | **Yn erbyn** | **Ymatal** |
|---|---|---|---|
| Gillian Bruce | √ | | |
| George Carroll | √ | | |
| Sally Hanks | | √ | |
| Ian Johnson | | | √ |
| Kevin Mahoney | √ | | |
| Neil Thomas | | √ | |

Ychwanegodd y Cynghorydd Hanks nad oedd hyn yn cyd-fynd â'r taliadau ymaddasu arfaethedig. Cytunodd y Cynghorydd Mahoney a dywedodd os nad yw Aelodau'n cael eu hethol trwy bleidlais, y dylent golli eu cyflog. Mynegodd y Cynghorydd Carroll wrthwynebiad i egwyddor taliadau ymaddasu hefyd a chadarnhaodd fod y trefniadau hyn eisoes yn bodoli yn y Senedd. Dywedodd y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson y gallai anghytundeb y Pwyllgor ag egwyddor taliad ymaddasu ar gyfer Aelodau sy'n colli eu sedd mewn etholiad cyffredin o'r Cyngor gael ei ychwanegu at yr ymateb ymgynghori.

PENDERFYNWYD –

(1) Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC)

(2) Y bydd yr ymateb ymgynghori i Adroddiad Blynyddol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) (Penderfyniadau 1 i 3) yn cael ei ddiweddaru i gynnwys y ffaith bod Cyngor Bro Morgannwg o'r farn na ddylid cynyddu cyflogau Aelodau 6.4%, ac y dylent aros yr un fath â 2024/25.

(3) Nad yw aelodau Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi'r cynigion i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru archwilio taliadau ymaddasu ar gyfer Cynghorwyr.

<u>Y rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1, 2 a 3) Sicrhau bod Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cael cyfle i rannu eu safbwyntiau ynglŷn ag unrhyw newidiadau arfaethedig ac adlewyrchu'r trafodaethau yn y cyfarfod.

[WEDI'I GUDDIO]

**23 Ar ran awdurdod lleol**

Ystyriodd Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir y Fflint Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol Blynyddol Drafft 2026 – 2027 yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.

Gan nad oedd unrhyw gwestiynau penodol fel a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol, awgrymwyd bod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar bum prif agwedd o'r adroddiad blynyddol drafft, a gwneud sylwadau ar bob un. Y rhain oedd: Taliadau ymaddasu; Cyflogau ar gyfer rolau uwch; y sail ar gyfer gosod lefelau cydnabyddiaeth ariannol; Cyd-bwyllgorau Corfforedig; a, Phenderfyniadau o flynyddoedd blaenorol.

Felly, gweler isod sylwadau'r Pwyllgor ar bob un.

**1. Taliadau ymaddasu**

*C. A oes gan y pwyllgor unrhyw sylwadau i'w gwneud i'r Comisiwn ynglŷn â'r cynigion i gyflwyno taliadau ymaddasu?*

A. Nid oedd y Pwyllgor yn cytuno â chyflwyno 'taliadau ymaddasu'.

Teimlwyd y byddai'n annog unigolion i sefyll er mwyn cael y taliad ymaddasu yn unig.

Teimlwyd hefyd pan nad oedd Cynghorydd a oedd eisoes yn ei swydd yn cael ei ailethol, bod yr etholwyr wedi'i 'ddiswyddo' i bob pwrpas. Nid yw unrhyw broffesiwn / diwydiant arall yn talu unigolion sydd wedi cael eu 'diswyddo' ac mae'n rhoi'r argraff anghywir i breswylwyr lleol.

**2. Cyflogau ar gyfer rolau uwch**

*C. A oes gan y pwyllgor unrhyw sylwadau i'w gwneud i'r Comisiwn ynglŷn â'r cynigion i adolygu cydnabyddiaeth ariannol rolau uwch mewn awdurdodau lleol?*

A. Gweler yr ymateb i Bwynt 3 isod.

**3. Y sail ar gyfer gosod lefelau cydnabyddiaeth ariannol**

*C. A oes gan y pwyllgor unrhyw sylwadau i'w gwneud i'r Comisiwn ynglŷn â'r cynigion i barhau i ddefnyddio – neu fel arall – yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion fel sail ar gyfer gosod lefelau cydnabyddiaeth ariannol?*

A. Nid oedd y Pwyllgor yn cytuno bod y cynnydd arfaethedig i'r lefelau cydnabyddiaeth ariannol (6.4%) yn briodol yn yr hinsawdd bresennol; yn benodol, y pwysau ariannol presennol a sylweddol sy'n wynebu Awdurdodau Lleol. Awgrymwyd na ddylai unrhyw gynnydd fod yn uwch na lefel chwyddiant.

Awgrymodd y Pwyllgor y dylai unrhyw gynnydd gyd-fynd yn well â gweithwyr y sector cyhoeddus, a chyfeiriodd at y cynnydd yng nghyfraddau 'Llyfr Gwyrdd' y Cyd-gyngor Cenedlaethol.

Safbwynt amgen a fynegwyd yn y cyfarfod oedd y dylai cydnabyddiaeth ariannol Cynghorwyr (heb gyfrifoldebau ychwanegol) barhau i gael ei gosod ar lefel a fyddai'n denu unigolion newydd, iau i ystyried sefyll i gael eu hethol i'r cyngor.

Yna, dylai'r taliadau Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig ar gyfer rolau uwch gael eu cynyddu yn ôl cyfradd chwyddiant neu yn unol â gweithwyr y sector cyhoeddus.

**4. Cyd-bwyllgorau Corfforedig**

*C. A oes gan y pwyllgor unrhyw sylwadau i'w gwneud i'r Comisiwn ynglŷn â chydnabyddiaeth ariannol aelodau Cyd-bwyllgor Corfforedig?*

A. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod mynychu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhan o rôl Cynghorwyr, felly ni ddylid rhoi cydnabyddiaeth ariannol. Gellir hawlio treuliau, a chredwyd bod hyn yn ddigonol.

**5. Penderfyniadau o flynyddoedd blaenorol**

*C. A oes gan y pwyllgor unrhyw sylwadau i'w gwneud i'r Comisiwn ynglŷn â phenderfyniadau o flynyddoedd blaenorol?*

A. Ni wnaeth y Pwyllgor sylwadau ynglŷn â'r agwedd hon, er y mynegwyd y farn na ddylai Cynghorwyr rôl 'ddeuol' (y rhai hynny sy'n Gynghorydd Sir ac yn Gynghorydd Cymuned/Tref) dderbyn taliad am eu rôl ar y Cyngor Cymuned/Tref.

**24 Ar ran awdurdod lleol**

Ysgrifennaf atoch i roi safbwyntiau aelodau ein Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Nodwyd yr adroddiad a gwnaeth aelod y sylwadau canlynol.

Cytunaf â'r rhan fwyaf o sylwedd yr adroddiad.

Paragraff 4. Taliadau ymaddasu. Codais hyn gyda'r panel ar y pryd rai blynyddoedd yn ôl. Mae cynghorwyr yn sicr yn cael eu trin fel bodau israddol o gymharu ag Aelodau o'r Senedd/Aelodau Seneddol. Mae'r ffaith nad oes taliad o gwbl yn golygu bod llawer iawn yn y fantol, yn enwedig i gynghorwyr mewn rôl arweiniol sy'n colli eu sedd.

Tua thri etholiad yn ôl, rwy'n cofio nad oedd saith arweinydd cyngor wedi cael eu hailethol. Heb drafod rhinweddau neu fel arall pam na chawsant eu hailethol, mae'n rhoi cynghorwyr sy'n cael

eu gadael heb incwm yn sydyn mewn sefyllfa anodd iawn. Mae hyn yn arbennig o wir am y rhai hynny o oedran gweithio.

Mae hyn yn ddatgymhelliad mawr wrth geisio annog pobl, ac yn enwedig pobl iau, i ddod yn gynghorydd.

Rwyf yn falch y bydd y fframwaith lwfansau'n cael ei adolygu.

Pan fydd cynghorydd yn ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol y tu allan i'r awdurdod cartref, fe ddylai hynny gael ei gydnabod.

Paragraff 48. Nodaf y dylai cynghorau ddarparu cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngrwyd digonol.

Paragraff 81. Yr anghysondeb enfawr rhwng lwfans ar gyfer aros yn Llundain ac mewn mannau eraill. Mae'n ddrutach aros yn Llundain, fel arfer, ond nid i'r graddau a adlewyrchir yn y lwfans hwn.

Nid yw hyn yn arbennig o berthnasol i CCBC, ond ni welaf gynnydd i lwfansau Cynghorau Cymuned a Thref.

Hyderaf y byddwch yn nodi'r ymateb, ond os oes gennych unrhyw ymholiadau mae croeso i chi gysylltu â mi.

**25 Ar ran awdurdod lleol**

O ran Adroddiad Blynyddol Drafft Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) ar gyfer blwyddyn y cyngor 2026/27, mynegodd y Pwyllgor safbwyntiau amrywiol ynglŷn â'r cynnydd 6.4% i gyflog sylfaenol Cynghorwyr. Amlygodd Aelodau er bod hyn yn unol ag Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) Cymru Gyfan 2024, fod y cynnydd arfaethedig wedi cael ei ysgrifennu ar adeg pan roedd cyfradd chwyddiant y Deyrnas Unedig yn 3.2%. Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r bwlch sylweddol hwn a'r ffaith y gallai hyn arwain at ganfyddiad cyhoeddus negyddol iawn o Gynghorwyr a Llywodraeth Leol, yn gyffredinol.

Er y nodwyd hyn, mynegodd y Pwyllgor bryderon hefyd fod rhaid gwneud darpariaeth ddigonol i sicrhau nad yw grwpiau penodol yn cael eu datgymell rhag bod yn ymgeiswyr posibl yn Etholiadau Llywodraeth Leol 2027. Nododd Aelodau na ddylai'r agwedd ariannol ddod yn rhwystr sy'n atal unigolion rhag sefyll, yn enwedig unigolion o grwpiau a ymyleiddiwyd.

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod angen i'r ddau gael eu cydbwyso'n ofalus a bod angen i hyn gael ei ystyried a'i fonitro, yn enwedig ar gyfer unrhyw Fframwaith newydd o 2027 ymlaen. Roeddent yn credu bod angen cydbwysedd i atal rhaniad pellach rhwng y cyhoedd a llywodraeth leol a hefyd i beidio â datgymell neu eithrio unrhyw ymgeiswyr posibl rhag cynnig eu hunain fel Cynghorydd yn y dyfodol i gynrychioli eu cymuned. Er y sylweddolir bod yr ASHE yn cael ei ddefnyddio i geisio cyfateb cyflogau i'r cyfartaledd cenedlaethol, cynigiwyd cadw cyflogau Cynghorwyr yn unol â chyfraddau chwyddiant presennol.

Cyfeiriwyd hefyd at y gwahaniaeth rhwng Bandiau 1 a 2 yn yr adroddiad, ar gyfer Arweinwyr a Dirprwy Arweinwyr. Cynigiodd Aelodau y dylai hyn gael ei ystyried yn rhan o'r fframwaith newydd, yn ogystal â ph'un a oedd y bwlch yma'n rhy fawr a bod angen rhoi sylw iddo. Awgrymodd Aelodau hefyd y dylid ystyried rhannu'r bandiau ar gyfer cyflogau Cynghorwyr (yn yr un modd â staff), i gael lefelau seiliedig ar berfformiad o fewn pob band.

Cytunodd y Pwyllgor eu bod yn teimlo’n annifyr ynglŷn â thaliadau ymaddasu ar gyfer cynghorwyr nad ydynt yn llwyddo i gael eu hailethol. Er eu bod yn deall y gallai cynghorwyr mewn rhai rolau, fel Aelod Gweithredol, fod wedi rhoi’r gorau i swyddi eraill er mwyn ymrwymo iddynt, cytunodd y Pwyllgor fod cynghorwyr yn gwbl ymwybodol ac yn deall y risg pan fyddant yn cynnig eu hunain mewn etholiad; risg y gallai’r teitl, p’un a ydynt yn newydd neu’n dychwelyd, fod yn gyfyngedig i un tymor o 5 mlynedd. Mynegwyd y farn hefyd nad yw cynghorwyr bob amser yn ymgymryd â rolau am resymau ariannol a’u bod eisiau gwneud hynny er budd eu cymuned. Felly, ni ddylai unrhyw gydnabyddiaeth ariannol fod yn angenrheidiol ac, unwaith eto, byddai’n peryglu’r canfyddiad cyhoeddus o Gynghorwyr a Llywodraeth Leol.

**26 Ar ran awdurdod lleol**

Ystyriwyd yr adroddiad cydnabyddiaeth ariannol drafft gan Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 24 Tachwedd 2025 a gwnaed yr arsylwadau canlynol:

- Awgrymwyd y dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion unwaith yn ystod tymor pob Cyngor.
- Er y cytunwyd yn gyffredinol y dylid cynyddu cydnabyddiaeth ariannol Aelodau, ystyriwyd bod y ffigur arfaethedig o 6.4% yn ormodol, gan ei fod yn fwy na chyfradd codiadau cyflog staff llywodraeth leol.
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod y cynnydd cyfartalog mewn cyflogau yng Nghymru yn 3.9% yn ystod 2024/2025 a 4.3% yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- Roedd yn bwysig denu aelodaeth amrywiol, ond dylid ystyried cynnydd is mewn cyflogau.

**PENDERFYNODD y Pwyllgor rannu’r uchod gyda Chomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) fel ymateb y Cyngor i’r ymgynghoriad, ond hoffent hefyd bwysleisio, yn eu barn nhw, na ddylai’r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Aelodau fod yn fwy nag enillion cyfartalog yn ystod y flwyddyn bresennol na blaenorol.**